Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Eich canllaw i

Wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol

Hawlio iawndal

Mae dros dair miliwn o bobl yn cael eu hanafu mewn damweiniau bob blwyddyn - gartref, yn y car, yn y gwaith, neu yn yr awyr agored. Mewn llawer o achosion, mae rhywun arall neu rywbeth arall ar fai ac mae gan y rhai a fu mewn damwain yr hawl i gael iawndal.

Er bod cyfraith anaf personol yn gymhleth, gyda chymorth cyfreithiwr gall y broses o wneud cais fod yn un syml. Mae llawer o gyfreithwyr yn cynnig ymgynghoriad cyntaf am ddim a byddant yn gallu dweud wrthych a yw eich cais yn un dilys.

Dod o hyd i gyfreithiwr

Os nad oes gennych gyfreithiwr yn barod, gallwch ddod o hyd i un yn **www.lawsociety.org.uk/findasolicitor** Chwiliwch o dan 'Personl Injury'. Efallai y byddwch am gyfarwyddo aelod o Gynllun Achredu Anafiadau Personol Cymdeithas y Cyfreithwyr. Cewch fanylion am y cynllun hwn ar y wefan, neu gallwch ffonio **020 7320 5650**.

Os oes gennych yswiriant costau cyfreithiol (a gynhwysir yn aml mewn polisïau yswiriant cartref neu foduro) neu os ydych yn aelod o undeb llafur, dylech roi manylion llawn gan gynnwys, lle y bo'n bosibl, gopi o'r polisi yswiriant i'ch cyfreithiwr.

Pa wybodaeth y bydd ei hangen ar eich cyfreithiwr

Er mwyn cadarnhau manylion eich achos, bydd angen i gyfreithiwr wybod:

- dyddiad y ddamwain a phryd a sut y digwyddodd;
- manylion cysylltiad unrhyw dystion;
- manylion eich anafiadau, eich diagnosis meddygol a'r driniaeth a roddwyd i chi;
- a ydych yn aelod o undeb llafur, am y gall hynny roi hawl i chi gael cynrychiolaeth gyfreithiol am ddim neu am bris gostyngol.

Ar ben hynny efallai y bydd angen i'r cyfreithiwr weld:

- prawf o'r enillion a gollwyd gennych a chostau ariannol eraill o ganlyniad i'ch anaf;
- dogfennau yn ymwneud ag unrhyw bolisïau yswiriant sydd gennych (megis yswiriant cartref neu foduro) i sicrhau y bydd y rhain yn talu costau cyfreithiol eich cais;
- unrhyw ddogfennau y gellir eu defnyddio i ategu eich cais, gan gynnwys dogfennau o'r cyfnod cyn eich damwain neu unrhyw dystiolaeth o ddamweiniau blaenorol o dan amgylchiadau tebyg.

Sut y gall eich cyfreithiwr helpu

Unwaith y byddwch wedi esbonio amgylchiadau eich anaf yn fanwl, bydd eich cyfreithiwr yn gallu barnu:

- pa mor debygol ydyw y bydd eich cais yn llwyddo;
- faint o iawndal y gallech ei hawlio.

Bydd hefyd yn esbonio'r prosesau cyfreithiol sy'n ymwneud â mynd â'ch cais ymhellach. Bydd hefyd yn trafod sut yn union y byddwch yn ariannu eich achos. Peidiwch ag ofni cymryd nodiadau, a gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'ch cyfreithiwr anfon llythyr atoch yn crynhoi'r cyngor y mae wedi'i roi i chi.

Dylai'r llythyr hwn gadarnhau:

- bod y cyfreithiwr yn barod i ymgymryd â'ch achos;
- enw a statws y cyfreithiwr neu rywun arall yn y cwmni a fydd yn gweithredu fel eich prif gyswllt o ddydd i ddydd;
- faint o amser y mae'r broses yn debygol o'i gymryd a'r trefniadau ar gyfer adroddiadau cynnydd;
- sut yr ydych yn ariannu'r achos, amcangyfrif o'ch costau ac unrhyw derfynau gwario y cytunwyd arnynt;
- pryd y gallai fod yn rhaid i chi dalu costau'r cyfreithiwr a phryd y gallai fod yn rhaid i chi dalu costau'r diffynnydd (gweler 'Costau');
- manylion unrhyw wybodaeth arall y mae angen i chi ei darparu;
- beth y dylech ei wneud os byddwch, am unrhyw reswm, yn anfodlon ar y ffordd y mae eich achos yn datblygu.

Gwneud eich cais

Yn gyntaf bydd eich cyfreithiwr yn anfon llythyr hawlio at y diffynnydd. Bydd y llythyr hwn yn nodi manylion eich anaf ac o dan ba amgylchiadau y digwyddodd. Os oes angen barn arbenigwr arnoch i ategu eich cais - gan feddyg, er enghraifft, – bydd eich cyfreithiwr yn awgrymu arbenigwr perthnasol.

Wedyn bydd yn rhaid i'r person yr ydych yn ei ddal yn gyfrifol am eich damwain (y 'diffynnydd') ymchwilio ac ymateb i'r llythyr o fewn cyfnod penodol – heb fod yn fwy na thri mis fel arfer, ac mewn llawer o achosion gyfnod llawer byrrach. Yn ei ateb bydd yn rhaid iddo ddweud a yw'n derbyn neu'n gwadu cyfrifoldeb am eich anaf. Os bydd yn derbyn cyfrifoldeb, bydd eich cyfreithiwr yn ceisio setlo'r mater y tu allan i'r llys.

Gwneud cynnig

Bydd eich cyfreithiwr yn dweud wrthych beth yn ei farn ef yw gwerth eich cais. Ar ben hynny efallai y bydd yn gofyn i chi nodi faint o iawndal yr ydych yn barod i'w dderbyn ac a ydych am wneud 'cynnig i setlo' am y swm hwnnw. Gelwir hyn yn 'gynnig Rhan 36'. Bydd eich cyfreithiwr yn dweud wrthych a ddylech wneud cynnig Rhan 36 a sut y byddai hyn yn effeithio arnoch.

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Eich canllaw i

Wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol

Os bydd yr atebydd yn 'ymateb yn rhesymol' i'r cynnig hwn ac y cytunir ar swm, gellir setlo'r mater heb fynd i'r llys. Mewn rhai sefyllfaoedd, gall yr atebydd ymateb drwy wneud ei gynnig Rhan 36 ei hun. Os bydd hyn yn digwydd, bydd eich cyfreithiwr yn eich cynghori beth i'w wneud.

Setliadau llys

Os na allwch setlo'r mater am swm teg heb fynd i'r llys, bydd eich cyfreithiwr yn dweud wrthych a ddylech ddechrau achos cyfreithiol. Os dywed y diffynnydd nad yw'n gyfrifol am dalu eich iawndal, efallai y bydd eich cyfreithiwr yn eich cynghori i fynd â'ch achos i'r llys i'w herio a gofyn i'r llys ddyfarnu iawndal i chi.

Amserlen y llys

Os penderfynwch fynd â'r mater i'r llys, caiff eich achos ei drosglwyddo i farnwr. Bydd y barnwr hwnnw wedyn yn gyfrifol am amserlen eich achos yn y llys. Bydd y llys yn eich hysbysu o ddyddiad eich gwrandawiad, a bydd eich cyfreithiwr yn dweud wrthych am unrhyw baratoadau y bydd angen i chi eu gwneud.

Gall y syniad o fynd i'r llys fod yn ddigon i'ch dychryn, ond mae'n bwysig cofio y bydd eich cyfreithiwr erbyn hyn wedi paratoi eich achos yn fanwl ac y bydd wedi esbonio beth yn union i'w ddisgwyl. Wedyn mae'n fater o aros i glywed y dyfarniad a chael gwybod a ydych wedi ennill eich achos ac a ddyfarnwyd y swm yr oeddech yn ei hawlio.

Costau

Ffioedd cyfreithwyr

Mae sawl ffordd o ariannu cais am iawndal oherwydd anaf personol a bydd eich cyfreithiwr yn esbonio pob un o'r rhain i chi ac yn dweud wrthych pa ddull sydd orau i chi.

Gall y tâl a godir amrywio o gyfreithiwr i gyfreithiwr. Mae'n dibynnu ar:

- brofiad a gwybodaeth y cyfreithiwr;
- y dull ariannu;
- y math o achos a pha mor gymhleth ydyw.

Cyn i chi benderfynu pwy i'w ddefnyddio, cysylltwch â sawl cyfreithiwr gwahanol i gymharu prisiau ac asesu pa mor brofiadol ydynt yn ymdrin â'ch math chi o achos.

Efallai y bydd eich cyfreithiwr yn gofyn i chi dalu ei gostau i gynnal eich achos wrth iddo fynd rhagddo (er enghraifft, cost tystiolaeth feddygol). Gelwir y costau hyn yn 'wariadau'.

Talu eich costau

Nid oes unrhyw gymorth cyfreithiol mwyach ar gyfer achosion anaf personol yn y DU. Ond os bydd eich achos yn llwyddiannus, dylai'r gwrthapelydd dalu'r rhan fwyaf o'ch costau cyfreithiol safonol. Fodd bynnag, os bydd eich cyfreithiwr yn gweithredu ar eich rhan ar sail cytundeb 'dim llwyddiant dim ffi', bydd yn rhaid i chi dalu 'ffi lwyddiant' y cyfreithiwr am nad oes modd adennill hon gan yr ochr arall. Y cwestiwn yw: beth sy'n digwydd os collwch chi'r achos?

Mae sawl dewis ar gael i chi sicrhau y gallwch dalu eich costau os bydd hyn yn digwydd. Bydd eich cyfreithiwr yn esbonio'r holl opsiynau i chi ac yn dweud wrthych a fydd yn rhaid i chi dalu, o bosibl, unrhyw ran o gostau cyfreithiwr eich gwrthwynebwr neu eich cyfreithiwr eich hun.

Rhestr wirio costau

Fel arfer bydd eich cyfreithiwr yn mynd ati i'ch helpu i ddeall costau eich achos a sut y gallwch eu talu. Dyma'r cwestiynau sylfaenol y bydd angen eu hateb yn eich cyfarfod cyntaf.

- Faint y mae achos fel hwn yn debygol o'i gostio, a sut mae'r costau yn cael eu cyfrifo?
- A ellir cael trefniant 'dim llwyddiant, dim ffi', neu a fydd y cyfreithiwr yn codi tâl fesul awr arnoch?
- Sut y caiff y ffioedd eu talu os collwch chi'r achos?
- A fydd angen yswiriant arnoch i'ch diogelu rhag y posibilrwydd o dalu costau'r diffynnydd?
- Pa ddewisiadau eraill sydd ar gael ar gyfer ariannu eich achos?

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Eich canllaw i

Wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol

Gallwn ddarparu'r wybodaeth yn y daflen hon mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais.

E-bostiwch accessibility@lawsociety.org.uk

Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni am ddim sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod.

Maent ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr neu o **www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems**

Eich canllaw i ddod o hyd i gymorth cyfreithiol arbenigol
Eich canllaw i brynu cartref
Eich canllaw i wneud ewyllys
Eich canllaw i gael ysgariad
Eich canllaw i broblemau yn y gwaith
Eich canllaw i sefydlu busnes
Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer pobl hŷn
Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent
Eich canllaw i rentu cartref
Eich canllaw i ddefnyddio cyfreithiwr
Eich canllaw i brofiant
Eich canllaw i hawlio lloches
Eich canllaw i ymgartrefu gyda'ch partner

Lexcel

Chwiliwch am Lexcel – y nod rhagoriaeth ar gyfer cyfreithwyr

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL **www.lawsociety.org.uk**

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol. Nid yw'r daflen hon yn disodli cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.

Dyluniwyd gan dmlmarketing.co.uk Fersiwn 5, 2013 LSwinjury